**Cofnodion Fforwm Derbyn Ceredigion a gynhaliwyd yn**
**Ystafell Brennig, Penmorfa, Aberaeron**
**ddydd Mawrth, 27 Mawrth 2018.**

**9:00am – 9:55am**

**Yn bresennol:** y Cynghorydd Catrin Miles (Cadeirydd), y Cynghorwyr Odwyn Davies (Cadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu), Philippa Davies (Rhiant-lywodraethwr, Ysgol y Dderi).

**Swyddogion wrth law:** Barry Rees (Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau), Matthew Brown (Pennaeth y Gwasanaethau Dysgu), Alan Morris, (Rheolwr: Data a Gwybodaeth), Cheryl Evans (Cynorthwyydd Gweinyddol) a Kay Davies (Gwasanaethau Democrataidd).

**1 Ymddiheuriadau**

Ymddiheurodd Eifion Evans (Prif Weithredwr), Lodwick Lloyd (Llywodraethwr), y Cynghorydd Endaf Edwards (Is-gadeirydd y Pwyllgor Trosolwg a Chraffu Cymunedau sy'n Dysgu) a Peter Leggett (Pennaeth Ysgol Gynradd Rhydypennau) am na fedrent ddod i'r cyfarfod.

**2 Gweithdrefn**

Croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod gan ddiolch i'r rhai hynny oedd yn bresennol am ddod.

**3 Datgelu Buddiannau Personol**

Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiannau personol.

**4 Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2017**

**PENDERFYNWYD** cadarnhau bod cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2017 yn rhai cywir, yn amodol ar nodi y bu Alan Morris yn bresennol.

**5 Materion yn codi o Gofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar 19 Mehefin 2017**

i. Eitem 5 – nodwyd na fedrai'r Eglwys yng Nghymru anfon neb i'w chynrychioli yn y cyfarfod. Fodd bynnag, byddai cynrychiolydd yn dod i'r cyfarfodydd pan gynhelid y rheiny gyda'r nos eto.

ii. Eitem 11 – penderfynwyd anfon dolen gyswllt i'r Ddogfen Wybodaeth i Rieni at Aelodau'r Fforwm.

iii. Eitem 10 – penderfynwyd dileu'r eitem 'Gwasanaeth Cymorth Ymddygiadol Ceredigion' o'r agenda.

## 6 Dogfen Wybodaeth i Rieni

Soniwyd bod y fersiwn diweddaraf o'r Ddogfen Wybodaeth i Rieni ar gael ar wefan y Cyngor[1]. Cyhoeddid fersiwn diwygiedig o'r ddogfen hon bob mis Medi a'i hanfon ar ffurf dolen gyswllt at rieni. Soniwyd na chafwyd yr un cais am gopi ar bapur. Roedd copïau ar gael hefyd mewn llyfrgelloedd ac adeiladau eraill y Cyngor, ac roedd yr wybodaeth yn dod gyda'r ffurflenni derbyn i ysgolion.

Crybwyllwyd y gallai fod yn werth cael copïau ar bapur ar gyfer rhai Aelodau, yn ôl yr angen.

Cytunwyd y byddai'n fuddiol cael gwybodaeth am nifer yr ymwelwyr â'r wefan dan sylw fel y gellid gwneud amcangyfrif o nifer y bobl oedd wedi darllen y ddogfen wybodaeth.

**PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

## 7 Polisi Derbyn 2019-2020

Dosbarthwyd copïau o Bolisi Derbyn Disgyblion i'r Ysgol 2019-20 a baratowyd gan y Gwasanaethau Dysgu. Cynhaliwyd ymgynghoriad ynghylch y Polisi ac ni chafwyd unrhyw ymatebion. Cyflwynid y Polisi i'r Cabinet mewn cyfarfod ym mis Ebrill 2018.

Esboniodd y Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau'r drefn o ran ceisiadau i dderbyn plant i ysgolion, gan amlygu rhaglen y Cyngor ar gyfer adsefydlu ffoaduriaid o Syria. Roedd yn fwyfwy pwysig i gadw mewn cof y gallai rhieni lleol na fedrai gael lleoedd i'w plant deimlo'n ddig pan dderbynnid plant drwy'r rhaglen fel y gallent fynd i'r ysgolion agosaf at eu cartrefi newydd.

**PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

## 8 Niferoedd a Dderbyniwyd i'r Ysgolion Uwchradd – Medi 2018 ac Apeliadau Canol Blwyddyn, 2017-18

Nodwyd y niferoedd canlynol a dderbyniwyd i'r ysgolion uwchradd:

| | |
|---|---|
| Aberaeron | 99 |
| Aberteifi | 124 |
| Bro Pedr | 81 |
| Bro Teifi | 92 |
| Henry Richard | 46 |
| Penglais | 172 |
| Penweddig | 115 |

---

1 https://www.ceredigion.gov.uk/media/3060/gwybodaeth-i-rieni.pdf

Dywedwyd fod saith o apeliadau wedi'u derbyn yn ystod y flwyddyn – tri ym Mhlascrug, tri arall yng Nghiliau Parc ac un yn Ysgol Gynradd Aberteifi. Enillodd y rhieni/gwarcheidwaid bob un o’r apeliadau hynny. Fodd bynnag, soniwyd fod llai o apeliadau wedi’u derbyn o gymharu â blynyddoedd blaenorol.

Soniwyd y gallai cynllunio ar gyfer derbyniadau fod yn anodd mewn rhai ysgolion uwchradd, yn enwedig felly ar gyrion y sir lle dderbyniwyd ceisiadau o’r siroedd dros y ffin.

**PENDERFYNWYD** nodi'r wybodaeth a ddarparwyd.

## 9 Unrhyw Fater Arall

Dywedodd y Cyfarwyddwr Strategol Dysgu a Phartneriaethau bod y Cyngor yn ystyried achosion derbyniadau ysgolion fesul un, ac y cedwid at holl bolisïau'r ysgolion hyd y gellid, gan gynnwys y polisïau cludiant, a bod rhieni/gwarcheidwaid yn medru defnyddio'r drefn apelio.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: i'w drefnu.

**Cadarnhawyd yng Nghyfarfod y Fforwm a gynhaliwyd ar**

**Cadeirydd:** _____________

**Dyddiad:** _________